

615

CAN RESYNUS;

SEF,

HANES LLOFRUDDIAETH

ANDREW ROSE,

O'R LLONG

“MARTHA & JANE,”

O SUNDERLAND,

AR EI MORDAITH O DEMERARA I LE'RPWL,

Am yr hyn y collfarnwyd, yn mrawdlys Le'rpwl,


HENRY ROGERS, *Captain,*

WILLIAM MILES, CHIEF MATE,

CHARLES EDWARD SEYMOUR, SECOND MATE;

On ddiwyddiwyd Capt. H. Rogers, yn Le'rpwl, Medi 12, 1857; ac alltudir y ddau eraill tros eu hoes i guletaf gaethiwed.

GAN YWAIN MEIRION.



ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD GAN D. JENKINS, HEOL Y WIG.

1857.

X205230414

CAN RESYNUS.

Pob llongwr tyner-galon naws union os nesêwch,
A chwithau'r holl Gapteiniaid, truenus ganiad gewch;
Am Gaptain laddodd forwr mewn cyflwr eithaf caeth,
Yn Le'rpwl ar y crogbren ei ddyben yntau a ddaeth.

Un *Andrew Rose*, mae'n resyn, yn destun erchyll daw,
Ar *Martha and Jane* a hwyliai o Demerara draw;
Fe'i poenwyd yn ofnadwy nes ei ddybenu o'r byd,
Gan y ddau *fate* a'r Captain, gwnawn gofio'r rha'n i gyd.

Rhoed gwaith iddo ar y llestr cyn iddi 'mado â'r lan,
A'r *second mate* a'i curodd yn filain yn y fan;
Diangodd am ei fywyd i'r lan tros ddyddiau rai,
Ond gan *bolice* fe'i daliwyd y degfed dydd o Fai.

I fwrdd y llong fe'i cym'rwyd a rhwymwyd ef ar hyn
Mewn cedyrn lyffetheiriau, sef heiyrn-gadwynau'n dyn;
A thranoeith hwyliai'r llestr i bellder mawr o'r byd,
O Demerara am Le'rpwl heb ofni trwbwl drud.

Pan aeth y llestr allan, yn fuan gwnaent ág e'
A'r chwip a rhaffau ei guro a'i luchio i bob drwg le;
'Roedd y ddau *fate* a'r captain ddrwg anian ddydd a nos
Bob adeg mewn drygioni am boeni *Andrew Rose*.

Pan aeth i ganu penill o hymn ryw Sabboth teg
Rhoi'r Captain follt o baiarn fawr gadarn yn ei gêg,
A'i rhwymo rhwng ei ddanedd am awr a hanper hir,
A'r *mates* eu dan'n ei helpu, mae'n galed traethu'r gwir.

A'i gau mewn casgen fechan, heb fwyd na dafn o ddŵr,
Tros ddeuddeg hirion oriau mewn syn ofidiau'n siwr,
A'i rholio ar fwrdd y llestr, rhyw fater chwerw a fu,
A chrogi'r casg hir amser uwch ben y dyfnder du!

'Roedd hefyd gan y Captain gi creulon milain mawr,
Fe ddysgodd hwnw i'w rwygo, a'i waed yn llifo i'r llawr;
Gwnai dori ei gnawd yn ddarnau, ac wrth ei gadw draw,
Y ci a neidiai ato gan larpio ei ddwy law.

Rhwng chwip y Captain diras a dannedd câs y ci
Ei gnawd aeth yn archollion a chynrhon, coeliwch chwi;

Bob dydd ei guro wnaethant, 'châdd dyn 'rioed gymaint
cam,—

C'edd hwnw ei fagu yn dirion gan serchog fwynlon fam.

Ac wrtho d'wedai'r Captain, "Gwnewch Andrew Rose
eich rhan,

I ladd eich hun trwy 'mgrogi neu foddi yn hyn o fan ;"

A Rose atebai'r Captain, "Trugaredd wnaech â fi,

Pe baech chwi yn fy nghrogi eich hunan, credwch chwi".

Aeth y ddau *fate* a'r Captain i wneyd eurhan yn rhwydd,

I'w grogi wrth y *riggings*, arswydus oed l eu swydd;

Ei wyneb ddarfu dduo, a'i lygaid bron o'i ben,

Fe gwmpodd 'rol ei dynu i lawr mor farw â phren.

Pan ddaeth ef ato ei hunan yn wyllt anniddan aeth,

Yn y *forecastle* cai'i rwymo, fe'i gwthiwyd yno yn gaeth;

Mehefin ar y punned tan erchyll galed gur,

Ar *deck* y llong bu farw trwy galon-g'ledwch clir.

Ei gorff llawn briwiau mawrion a chleisiau duon dwys,

Oedd drosto wedi pydru, mae'n beth ofnadwy o bwys;

I'r môr a'i donau mawrion ei dafu'n union wnaed,

Heb feddwl fod y gyfraith yn gwaeddi am ddial gwaed.

'Sgrifenodd un o'r dynion holl hanes hon o hyd,

A'r *crew* bob un wnaent dyngu y geiriau hyny i gyd;

Pan gaed y llong i Lerpwl, rhyw ddirfawr drwbl ddaeth,

Ar y ddau *fate* a'r Captain, fe'u rhoid mewn carchar caeth

A'r sessiwn ddaeth oddeutu i'w profi am eu brâd,

Daeth *crew* y llong yn dystion un galon heb nacad;

Y modd y lladdwyd llongwr ar eigion llifddwr llaith,

A thafu ei gorff llawn briwiau i'r môr a'i donau maith.

Cymerwyd Captain Rogers a William Miles ger bron,

Charles Edward Seymour hefyd, i'r frawdlys hynod hon;

Gwnai'r llongwyr berffaith dystio am eu creulondeb mawr,

'Roedd cannoedd wrth eu gwrando â'u dagrau'n llifo i'r
llawr.

Pan welwyd fod y tystion mor gyson yno i gyd,

Gwnai'r *Jury* eu heuog-farnu ger bron ar hyny o bryd;

A'r *Judge* a godai i fyny, â'i ddagrau i'r llawr yn lli
Cyhoeddodd farwol ddedryd mor drynilyd ar y tri.

"Clywch, Rogers, Miles, a Seymour, mae'n fater sobr syn,
Cyhuddwyd chwi mor berffaith o'r hyll lofruddiaeth hyn;
Am wneyd fath galon-g'ledwch a brofwyd ger eich bron,
Y crogbren aiff â'ch bywyd wrth gyfraith Lloegr lon.

"Ni wnaed fath beth ar diroedd nac ar y moroedd maith,
Am hyny ar y crogbren daw dyben ar eich taith;
Eich amser iawn ddefnyddiwch tra byddwch yma byw,
I guro am drugaredd yn daer wrth orsedd Duw."

I'r carchar 'nol fe'u cyrchwyd hyd ddydd y ddedryd ddu,
Bu llawer o 'sgrifenu i Lundain dros y tri;
Er hyn daeth oes y Captain ar bren i ben o'r byd,
Caiff Miles a Seymour fyned i'r *transport* gwaeth a'i gyd.

Daeth gwraig a phlant y Captain i mewn i'r carchar mawr,
Galarus gwnaent ffarwelio, â'u dagrau'n llifo i'r llawr;
A thraoeth yn y bore cychwynodd tros y dwr,
O Le'rpwl adre' i *Swansea* rhag gweled colli ei gwr.

Cai'r Captain ei gynghori o ddifri' yno'n ddwys,
I lwyr gyfadde' ei feia', ar Grist rhoi'n bena'i bwys;
Yr oedd yn edifeiriol yn ngolwg dynolryw,
Ei amser wuai ddefnyddio i ddwys weddio ar Dduw.

Deuddegfed dydd o Fedi, bydd côf am hyny yn hir,
Yn Le'rpwl yn ngwydd miloedd ar gyhoedd, dyma'r gwir,
Rhoddasant Captain Rogers i farw yn brudd ar bren,
Ychydig wedi deuddeg y bu ei oes ar ben.

Yn rhybudd bo i Gapteiniaid rhag bod yn galed gâs,
Mae Duw'n eich gwel'd yn eglur mor glir ar gefnfor glas;
I forwr na wnewch gynyg wneyd byth fath sarug sên,
Na chlywer am fath weithred dymuned pawb. Amen.